



**Comisiynydd Heddlu a Throseddu  
Dyfed-Powys  
Police and Crime Commissioner**

## **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

**Ymarfer Hapsamplu'r  
Panel Craffu**

**Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu –  
Galwadau Ffôn Troseddau Gwledig**

**Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel**

## Cynnwys

<b>Cynnwys</b> .....	<b>1</b>
<b>1.0 Trosolwg, cefndir, diben, a methodoleg</b> .....	<b>2</b>
<b>2.0 Crynodeb gweithredol</b> .....	<b>4</b>
<b>3.0 Adolygiad o ddigwyddiadau</b> .....	<b>4</b>
<b>4.0 Ymateb i ymholiadau a godwyd</b> .....	<b>12</b>

## 1.0 Trosolwg, cefndir, diben, a methodoleg

Mae cylch gorchwyl y Panel Sicrhau Ansawdd, sydd ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd <https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/i40pps34/gap-tor-final-2025-cymraeg.pdf>, yn nodi cefndir a diben y panel, ynghyd â sut y mae'r hapsamplu yn cael ei gynnal, a'r hyn y gofynnir i'r panel ei ystyried.

Yng nghyfarfod Panel Sicrhau Ansawdd y Comisiynydd a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2026, ystyriwyd detholiad ar hap o alwadau ffôn Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu mewn perthynas â throseddau gwledig. Gwrandawodd yr aelodau ar ddetholiad o alwadau ffôn, a buont yn ystyried cofnodion cysylltiedig y System Gofnodi Digwyddiadau a Defnydd o Adnoddau (system gorchymyn a rheoli'r heddlu). Adolygodd y panel wyth galwad ffôn i Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu.

Gofynnwyd i aelodau'r Panel Sicrhau Ansawdd adolygu'r sampl o alwadau ffôn, gan ystyried y meini prawf hollgwmpasog canlynol:

- Pennu anghenion y galwyr
- Ymchwilio a chofnodi data
- Pennu'r dioddefwr / bregusrwydd
- Cydberthynas a dull proffesiynol
- Gwasanaeth cadarnhaol a gynigir
- Camau diogelu / cyngor a roddwyd i beidio ag amharu ar leoliad y digwyddiad
- Crynodeb o'r alwad ffôn
- Cyngor cau / rheoli disgwyliadau

Darperir copi o'r ffurflen adborth lawn yn Atodiad A. Yn ogystal, gofynnwyd i'r

panel ystyried a oedd y radd a ddyrannwyd i'r alwad ffôn yn gywir yn eu barn nhw. Mae pedair gradd posibl o ran galwadau ffôn:

1. Gradd 1 – Ymateb ar unwaith
2. Gradd 2 – Ymateb blaenoriaeth
3. Gradd 3 – Ymateb safonol
4. Gradd 4 – Datrysiad heb anfon swyddog(ion) i leoliad

## 2.0 Crynodeb gweithredol

At ei gilydd, bu'r panel yn adolygu wyth galwad ffôn i Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu.

### Adborth cadarnhaol

Ar y cyfan, roedd y cwestiynu drwy gydol y galwadau ffôn yn dda ac yn rhesymegol, a oedd yn caniatáu i'r unigolion a oedd yn ymdrin â'r galwadau ffôn i ddeall beth oedd y materion perthnasol.

### Meysydd i'w gwella

Y prif faes i'w wella yw'r eglurhad am y cyfnodau o ddistawrwydd a geir yn ystod y galwadau ffôn. Roedd y panel o'r farn y dylid egluro i'r sawl sy'n ffonio trwy ddweud rhywbeth fel, "Efallai y byddwch yn wynebu rhywfaint o dawelwch tra byddaf yn casglu'r wybodaeth. Mae hyn oherwydd fy mod yn sicrhau bod y cyfan wedi ei gofnodi ar y system".

Mewn sawl galwad ffôn, ni roddodd yr unigolyn a oedd yn ymdrin â'r alwad ffôn wybodaeth benodol am y camau nesaf.

Teimlai'r panel ei bod yn bwysig i'r unigolyn sy'n ymdrin â'r alwad ffôn ddefnyddio enw'r galwr, pan fo modd, er mwyn helpu i dawelu meddwl y galwr.

## 3.0 Adolygiad o ddigwyddiadau

### Digwyddiad 1

#### Amgylchiadau

Dwyn gafr, a raddiwyd ag ymateb safonol.

#### Pwyntiau cadarnhaol

- Nodwyd gan y panel bod yr unigolyn a oedd yn ymdrin â'r alwad ffôn wedi cwestiynu'n dda.
- Defnyddiodd yr unigolyn a oedd yn ymdrin â'r alwad ffôn enw'r

galwr, ac arhosodd yn bwylllog wrth ofyn cwestiynau.

### **Meysydd i'w gwella**

- Roedd cyfnodau sylweddol o dawelwch yn ystod yr alwad ffôn, pan oedd yr unigolyn a oedd yn ymdrin â'r alwad yn teipio gwybodaeth, y gellid wedi eu hegluro.
- Nodwyd bod diben yr alwad ffôn wedi ei ganfod yn gynnar, ond nad oedd y broses o gasglu gwybodaeth bellach yn ymddangos mewn dilyniant rhesymegol.
- Teimlai'r panel, wrth ddod â'r alwad ffôn i ben, y gellid wedi rhoi mwy o wybodaeth am y camau nesaf i'r galwr.

### **Materion a godwyd**

- A ydyw'r broses wedi newid bellach o ran gofyn am fregusrwydd, oherwydd gofynnwyd amdanynt ar ddiwedd pob galwad ffôn a ystyriwyd? Mewn ystyriaethau blaenorol gan y panel, byddai hyn yn cael ei ofyn yn gynharach yn yr alwad ffôn.
- Gofynnodd yr unigolyn a oedd yn ymdrin â'r alwad ffôn a oedd gan y galwr unrhyw fregusrwydd, ond gan fod y lladrad wedi digwydd ar fferm rhieni'r galwr, teimlai'r panel y dylid wedi gofyn i'r galwr a oedd gan ei rhieni unrhyw fregusrwydd. Pam na ddigwyddodd hyn?

### **Digwyddiad 2**

#### **Amgylchiadau**

Achos o dda byw yn cael eu helcyd gan gi, a raddiwyd ag ymateb

safonol.

### **Pwyntiau cadarnhaol**

- Dilyniant rhesymegol o gwestiynu a oedd yn caniatáu i ddata gael eu casglu.
- Esboniwyd yr hyn a fyddai'n digwydd nesaf, a'r ffaith y byddai'r heddlu mewn cysylltiad o fewn 72 awr.
- Gwnaeth yr unigolyn a oedd yn ymdrin â'r alwad ffôn gadarnhau bod y ci wedi mynd ac nad oedd yn parhau i achosi trafferthion.

### **Meysydd i'w gwella**

- Er bod cydberthynas dda wedi ei sefydlu, ni ddefnyddiodd yr unigolyn a oedd yn ymdrin â'r alwad ffôn enw'r galwr tan yn hwyrach yn yr alwad.

### **Materion a godwyd**

- Holodd y panel a oedd y flaenoriaeth yn gywir, gan y bu digwyddiadau blaenorol, a bod enw perchennog y ci wedi cael ei rannu. A allai hyn fod wedi bod yn ymateb blaenoriaeth yn lle hynny?

## **Digwyddiad 3**

### **Amgylchiadau**

Digwyddiad amheus a adroddwyd amdano yn dilyn lladrad yn eiddo cymydog, ac a raddiwyd ag ymateb safonol.

### **Pwyntiau cadarnhaol**

- Roedd y galwr yn broffesiynol ac yn gofyn cwestiynau clir a rhesymegol.

- Cychwynnodd yr alwad ffôn yn dda, a dawelodd feddwl y galwr.

### **Meysydd i'w gwella**

- Ni roddodd yr unigolyn a oedd yn ymdrin â'r alwad ffôn gyngor ar y camau nesaf, a fyddai wedi rheoli disgwyliadau'r galwr.
- Roedd rhai adegau o ddistawrwydd yn ystod yr alwad ffôn y gellid wedi eu hesbonio gan yr unigolyn a oedd yn ymdrin â'r alwad ffôn.

### **Materion a godwyd**

- Dywedodd y galwr fod olion traed yn bresennol a allai fod yn dystiolaeth y gellid ei defnyddio. A ddylai hwn fod wedi bod yn ymateb blaenoriaeth yn hytrach nag un safonol?
- Gofynnodd y panel a fyddai'r alwad ffôn hon yn cael ei chymharu â'r alwad ffôn a wnaed mewn perthynas â'r lladrad ar eiddo cymdogion.

### **Digwyddiad 4**

#### **Amgylchiadau**

Mater traffig mewn perthynas â gweld nifer o feiciau 'motocross' oddi ar y ffordd, a raddiwyd ag ymateb safonol.

#### **Pwyntiau cadarnhaol**

- Roedd cwestiynu da wedi arwain at ddealltwriaeth dda o nifer a mathau'r beiciau dan sylw.
- Dywedodd yr unigolyn a oedd yn ymdrin â'r alwad y byddai'r cyfeirnod yn cael ei anfon drwy neges e-bost a neges destun.

### **Meysydd i'w gwella**

- Teimlai'r panel, ar ddechrau'r alwad ffôn, nad oedd unrhyw

strwythur wrth gael yr wybodaeth, a bod y galwr wedi cael cyfle i gyflwyno llawer o fanylion heb unrhyw ffordd i'r panel wybod pa wybodaeth a oedd wedi ei chasglu. Nodwyd bod oedi cyn cadarnhau manylion personol y galwr.

### **Materion a godwyd**

- O ystyried natur y digwyddiad a'r annhebygolrwydd o leoli'r beiciau efallai, a ddylai hyn fod wedi ei raddio fel datrysiad heb anfon swyddog(ion) i'r lleoliad; ac a ddylid defnyddio'r wybodaeth a gafodd ei chynnwys yng nghofnod yr alwad ffôn ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau yn y dyfodol?
- Dros gyfnod o flwyddyn, sawl galwad ffôn sy'n cael ei graddio ar lefel 4, neu ai'r sefyllfa ddiodyn yw graddio o leiaf ar lefel 3?

### **Digwyddiad 5**

#### **Amgylchiadau**

Digwyddiad yn ymwneud â dwyn fan y galwr, a raddiwyd ag ymateb blaenoriaeth.

#### **Pwyntiau cadarnhaol**

- Proses gwestiynu rhesymegol, a wnaeth gasglu'r wybodaeth berthnasol.
- Dywedodd yr unigolyn a oedd yn ymdrin â'r alwad ffôn yn ystod yr alwad fod gwaith eisoes yn mynd rhagddo i geisio dod o hyd i'r fan.

#### **Meysydd i'w gwella**

- Nodwyd gan y panel nad oedd yr unigolyn a oedd yn ymdrin â'r alwad wedi crybwyll enw'r galwr o gwbl yn ystod yr alwad.
- Rhai adegau o ddistawrwydd y gellid wedi eu hegluro i'r galwr.

**Materion a godwyd**

- Nodwyd gan y panel y gallai fod yn rhaid i unigolyn sy'n ymdrin â galwadau, yn ystod unrhyw shifft, ateb llawer o alwadau a allai fod yn eithaf manwl ac yn gofyn am y gallu i ganolbwyntio llawer. Pa hyfforddiant sydd ar waith i sicrhau bod yr unigolion sy'n ymdrin â galwadau yn gallu canolbwyntio'n llawn ar bob galwad, ac nad ydyn nhw efallai'n dioddef o flinder tosturi, pan allen nhw ofyn am yr wybodaeth y mae ei hangen mewn modd nad yw'n empathig, o reidrwydd.

**Digwyddiad 6****Amgylchiadau**

Digwyddiad mewn perthynas â helpa bosibl gyda cheffylau a chŵn, a raddiwyd ag ymateb blaenoriaeth.

**Pwyntiau cadarnhaol**

- Dywedodd yr unigolyn a oedd yn ymdrin â'r alwad y byddai'r wybodaeth yn cael ei rhannu â'r tîm troseddau gwledig.

**Meysydd i'w gwella**

- Cymerodd beth amser i'r unigolyn a oedd yn ymdrin â'r alwad ganfod beth oedd pryderon y galwr.
- Ni ofynnwyd i'r galwr am unrhyw fregusrwydd.
- Gan fod yr alwad wedi ei graddio ag ymateb blaenoriaeth, dylai'r unigolyn a oedd yn ymdrin â'r alwad fod wedi cynghori ynghylch y camau a fyddai'n cael eu cymryd, a rhoi amserlen i'r galwr.

**Materion a godwyd**

- Ar ddechrau'r alwad gofynnodd y galwr am gael siarad ag unigolyn penodol. Gwnaeth yr unigolyn a oedd yn ymdrin â'r alwad wirio a oedd yr unigolyn hwnnw ar gael, ac yna rhoddodd wybod i'r galwr ei fod i ffwrdd o'r gwaith oherwydd diwrnod gorffwys ac nad oedd ar gael. Ai'r drefn arferol yw darparu'r lefel honno o wybodaeth? Roedd y panel o'r farn bod hyn yn rhannu rhywfaint o wybodaeth bersonol am swyddog penodol.
- A fyddai Heddlu Dyfed-Powys wedi cael gwybod am unrhyw helfeydd sydd i'w cynnal?

## **Digwyddiad 7**

### **Amgylchiadau**

Galwad i roi gwybod am weithgarwch amheus a allai fod yn botsio, a raddiwyd ag ymateb safonol.

### **Pwyntiau cadarnhaol**

- Gofynnodd yr unigolyn a oedd yn ymdrin â'r alwad gwestiynau perthnasol i gael yr wybodaeth ofynnol.
- Sefydlwyd perthynas dda rhwng y galwr a'r unigolyn a oedd yn ymdrin â'r alwad.

### **Meysydd i'w gwella**

- Roedd cyfnodau o dawelwch y dylid wedi eu hesbonio i'r galwr.
- Dywedodd yr unigolyn a oedd yn ymdrin â'r alwad y byddai rhywun mewn cysylltiad maes o law, a theimlwyd y gallai hyn fod wedi bod yn fwy penodol.

### **Materion a godwyd**

- Roedd y galwr wedi cysylltu â Chanolfan Gyfathrebu'r Heddlu oherwydd digwyddiad ar dir ei fodryb. Gofynnodd yr unigolyn a oedd yn ymdrin â'r alwad a oedd gan y galwr unrhyw fregusrwydd, ond ni ofynnodd am y fodryb. A ddylai fod wedi ceisio mwy o wybodaeth i ganfod a oedd gan y fodryb unrhyw fregusrwydd?

## **Digwyddiad 8**

### **Amgylchiadau**

Digwyddiad pan welwyd ci yn helcyd da byw a raddiwyd ag ymateb ar unwaith.

### **Pwyntiau cadarnhaol**

- Cwestiynu da, ac esboniodd yr unigolyn a oedd yn ymdrin â'r alwad yr hyn yr oedd yn ei wneud.
- Cynghorodd yr unigolyn a oedd yn ymdrin â'r alwad yr unigolyn i beidio â'i roi ei hun mewn perygl.
- Cafwyd diwedd da i'r alwad, a fyddai wedi rheoli disgwyliadau'r galwr, a byddai wedi deall y camau nesaf.

### **Meysydd i'w gwella**

- Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr alwad hon, ac roedd y panel o'r farn y dylid ei defnyddio fel enghraifft o arfer da.

### **Materion a godwyd**

- Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau o ystyried yr alwad hon.

## 4.0 Ymateb i ymholiadau a godwyd

Gwnaeth aelodau'r panel y sylwadau canlynol:

Sylwadau	Ymateb yr heddlu
<p>A ydyw'r broses wedi newid bellach o ran gofyn am fregusrwydd, oherwydd gofynnwyd amdanynt ar ddiwedd pob galwad ffôn a ystyriwyd? Mewn ystyriaethau blaenorol gan y panel, byddai hyn yn cael ei ofyn yn gynharach yn yr alwad ffôn.</p>	<p>Nid oes amser penodol pan fo'n rhaid i'r unigolion sy'n ymdrin â galwadau ofyn y cwestiwn am fregusrwydd. Yr unig ofyniad yw eu bod yn ei ofyn rywbryd yn ystod yr alwad. Mae llawer o weithredwyr yn dewis gofyn y cwestiwn tua diwedd yr alwad gan mai dyma pryd y maen nhw (gobeithio) wedi llwyddo i feithrin cydberthynas dda â'r galwr, ac felly, y syniad yw y bydd y galwr yn fwy tebygol o ddatgelu gwybodaeth. Fodd bynnag, gall y mater godi yn gynharach yn yr alwad os yw'n briodol hefyd.</p>
<p>Gofynnodd yr unigolyn a oedd yn ymdrin â'r alwad ffôn a oedd gan y galwr unrhyw fregusrwydd, ond gan fod y lladradd wedi digwydd ar fferm rhieni'r galwr, teimlai'r panel y dylid wedi gofyn i'r galwr a oedd gan ei rhieni unrhyw fregusrwydd. Pam na ddigwyddodd hyn?</p>	<p>Rwy'n cytuno â hyn, ac mae hyn mewn gwirionedd yn rhan o'r polisi. Dylai galwyr ganfod a oes gan unrhyw un sy'n ymwneud â'r digwyddiad unrhyw fregusrwydd. Ystyrir hyn yn arfer gorau gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF.</p>
<p>Holodd y panel a oedd y flaenoriaeth yn gywir, gan y bu digwyddiadau blaenorol, a bod enw perchennog y ci wedi cael ei rannu. A allai hyn fod wedi bod yn ymateb blaenoriaeth yn lle hynny?</p>	<p>Gan nad oedd dim byd yn parhau ar y pryd, a bod y risg wedi dod i ben, rwy'n cytuno â phenderfyniad yr unigolyn a oedd yn ymdrin â'r alwad i raddio'r ymateb ag ymateb safonol. Gellid cynnal yr ymholiadau ynghylch yr unigolyn dan amheuaeth yn ystod adegau tawel, yn ddelfrydol gan ein Tîm Troseddau Gwledig.</p>
<p>O ystyried natur y digwyddiad a'r annhebygolrwydd o leoli'r beiciau efallai, a ddylai hyn fod wedi ei raddio fel datrysiaid heb anfon swyddog(ion) i'r lleoliad; ac a ddylid defnyddio'r wybodaeth a gafodd ei chynnwys yng nghofnod yr alwad ffôn ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau yn y dyfodol?</p>	<p>Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu rhai newidiadau mawr yn y ffordd y gellir prosesu gwaith fforensig. Gallant fynd i lai o ddigwyddiadau ar sail ymateb ar unwaith / blaenoriaeth. (Nid wyf yn arbenigwr ar hyn o gwbl. Mae'n ymwneud â safonau'r labordy a chamau y gellir / na ellir eu cyflawni mewn lleoliad digwyddiad. Byddai Sharlene Watkins yn gallu egluro'n llawn.)Felly, nid digwyddiad yw hwn lle byddai ein staff fforensig yn gallu bod yn bresennol ar sail ymateb blaenoriaeth.</p>

<p>Dros gyfnod o flwyddyn, sawl galwad ffôn sy'n cael ei graddio ar lefel 4, neu ai'r sefyllfa ddiodyn yw graddio o leiaf ar lefel 3?</p>	<p>Yn 2025 graddiwyd 49,243 o ddigwyddiadau fel digwyddiadau Gradd 4. Bydd hyn wedi digwydd ar ôl gwneud ymchwiliadau i'r alwad o bell mewn llawer o achosion. Ni ellir graddio troseddau ac ymddygiadau gwrthgymdeithasol fel digwyddiadau Gradd 4 oherwydd mae wastad rhywbeth pellach y mae angen i'n Tîm Plismona ac Atal Bro neu'r Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau ei wneud mewn perthynas â'r mathau hyn o alwadau. Defnyddir Gradd 4 yn bennaf pan fyddwn yn cael galwadau gwybodaeth yn unig, neu alwadau 999 damweiniol.</p>
<p>Nodwyd gan y panel y gallai fod yn rhaid i unigolyn sy'n ymdrin â galwadau, yn ystod unrhyw shifft, ateb llawer o alwadau a allai fod yn eithaf manwl ac yn gofyn am y gallu i ganolbwyntio llawer. Pa hyfforddiant sydd ar waith i sicrhau bod yr unigolion sy'n ymdrin â galwadau yn gallu canolbwyntio'n llawn ar bob galwad, ac nad ydyn nhw efallai'n dioddef o flinder tosturi, pan allen nhw ofyn am yr wybodaeth y mae ei hangen mewn modd nad yw'n empathig, o reidrwydd.</p>	<p>Fel aelodau o staff Heddlu Dyfed-Powys, rydym yn hynod ffodus i gael mynediad at gyfoeth o gyfleusterau lles, o gwnsela wyneb yn wyneb, i ôl-drafodaethau â chymheiriaid. Mae pob un o'r gweithredwyr yn cael pedwar egwyl mandadol y mae'n rhaid iddynt eu cymryd yn ystod eu shifft, pan mae croeso iddynt ddefnyddio ein hystafell gemau a'n hystafell dawel yn yr adran, yn ogystal â chymdeithasu yn y manau gorffwys cymunedol.</p> <p>Yn yr hyfforddiant cychwynnol, dysgir dysgwyr i ddeall yr hyn sydd yn eu sbarduno, a'r arwyddion y byddant yn eu teimlo pan fydd galwad yn mynd yn ormod iddynt, fel y gallant ofyn am seibiant ychwanegol os oes angen. Rydym hefyd yn hyfforddi i ofalu am ein gilydd, fel y gellir rhybuddio'r goruchwyliwr os yw rhywun yn cael trafferth. Gan nad yw'r timau'n fawr iawn, bydd goruchwylwyr yn cadw llygad hefyd, ac yn siarad â'r rhai sydd wedi ymdrin â galwadau anodd, ac mae ein harolygwyr yn rhagweithiol iawn wrth dynnu sylw at alwadau anodd a chysylltu ag aelodau'r tîm hefyd. Bydd uwch-aelodau o staff hefyd yn sgwrsio ag aelodau staff yn rheolaidd i gadw llygad ar eu llesiant, yn enwedig os bu galwad anodd. Rydym yn hynod o ffodus bod gennym ddiwylliant hynod ofalgar yma.</p>

<p>Ar ddechrau'r alwad gofynnodd y galwr am gael siarad ag unigolyn penodol. Gwnaeth yr unigolyn a oedd yn ymdrin â'r alwad wirio a oedd yr unigolyn hwnnw ar gael, ac yna rhoddodd wybod i'r galwr ei fod i ffwrdd o'r gwaith oherwydd diwrnod gorffwys ac nad oedd ar gael. Ai'r drefn arferol yw darparu'r lefel honno o wybodaeth? Roedd y panel o'r farn bod hyn yn rhannu rhywfaint o wybodaeth bersonol am swyddog penodol.</p>	<p>Rydym yn rhoi manylion amwys am argaeledd swyddog. Dywedir wrth yr unigolion sy'n ymdrin â galwadau i beidio ag ateb cwestiynau pan fydd y galwr yn ceisio darganfod beth yw eu patrwm gwaith penodol; ond yn gyffredinol, ystyrir bod rhoi gwybod i'r galwr eu bod ar ddiwrnodau gorffwys ond y byddant yn ôl ar ddyddiad 'x' yn ddiogel. Rydym yn fwy gofalus pan fydd rhywun ar absenoldeb salwch neu absenoldeb mamolaeth, ac mae'r iaith a ddefnyddir yn llawer mwy amwys yn yr amgylchiadau hyn; er enghraifft, 'Nid yw PC123 ar gael ar hyn o bryd, ond byddaf yn siarad â'i ringyll fel y gall rhywun gysylltu'n ôl â chi'. Os gofynnir i ni pam nad yw'r swyddog ar gael, byddwn yn hyfforddi'r gweithredwr i ddweud rhywbeth fel, 'Ni allaf ddatgelu hynny, ond yr hyn y gallaf ei wneud yw ...'</p>
<p>A fyddai Heddlu Dyfed-Powys wedi cael gwybod am unrhyw helfeydd sydd i'w cynnal?</p>	<p>Mewn theori, dylai helfeydd cyfreithiol roi gwybod i ni pan fyddant yn cael eu cynnal. Nid yw bob amser yn digwydd felly gan mai cyfrifoldeb yr helpa yw rhoi gwybod i ni.</p>
<p>Roedd y galwr wedi cysylltu â Chanolfan Gyfathrebu'r Heddlu oherwydd digwyddiad ar dir ei fodryb. Gofynnodd yr unigolyn a oedd yn ymdrin â'r alwad a oedd gan y galwr unrhyw fregusrwydd, ond ni ofynnodd am y fodryb. A ddylai fod wedi ceisio mwy o wybodaeth i ganfod a oedd gan y fodryb unrhyw fregusrwydd?</p>	<p>Fel y trafodwyd uchod, byddai hyn yn bendant yn rhywbeth y dylai'r unigolyn a fu'n ymdrin â'r alwad wedi ei ofyn gan ei fod yn effeithio ar y fodryb a'i theulu.</p>